------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 25 Hydref 2017

Amser y cyfarfod: 13.30

## 98(v3)

## 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad

(15 munud)

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

**Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant:**

**Mark Isherwood (Gogledd Cymru)**: A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am y Rhaglen Targedu Buddsoddiad Adfywio, yn dilyn ei lansiad ar 20 Hydref 2017?

**Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg (i'w ateb gan Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes):**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Darren Millar (Gorllewin Clwyd): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ymateb i ddata sy'n dangos bod myfyrwyr o Gymru yn cyfrif am 2 y cant yn unig o'r myfyrwyr a dderbyniwyd i Rydychen a Chaergrawnt y llynedd?

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 5 Dadl ar Gynnig Deddfwriaethol gan Aelod

(30 munud)

NDM6350 Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi cynnig ar gyfer Bil a fyddai'n addasu'r broses gynllunio fel bod rhagdybiaeth yn erbyn hollti hydrolig (ffracio).

2. Yn nodi mai diben y Bil hwn fyddai amddiffyn tirwedd Cymru ac iechyd y cyhoedd.

**Yn unol â Rheol Sefydlog 12.23 (iii), ni ddewiswyd y gwelliant a gyflwynwyd i'r cynnig hwn.**

## 6 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau: Cymunedau yn Gyntaf – yr hyn a ddysgwyd

(60 munud)

NDM6547 John Griffiths (Dwyrain Casnewydd)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar yr ymchwiliad i dlodi yng Nghymru, 'Cymunedau yn Gyntaf – yr hyn a ddysgwyd', a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Hydref 2017.

Nodyn: Gosodwyd ymateb Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Hydref 2017.

## 7 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

(60 munud)

**NDM6546** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn credu na ddylid gweithredu treth dwristiaeth yng Nghymru.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Dileu pob dim a rhoi yn ei le:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi:

a) bod Deddf Cymru 2014 yn cynnwys pwerau i Gymru gynnig trethi newydd mewn meysydd cyfrifoldeb datganoledig;

b) bwriad Llywodraeth Cymru i brofi cyfundrefn Deddf Cymru ar gyfer cynnig a chyflwyno trethi newydd mewn meysydd cyfrifoldeb datganoledig;

c) yn dilyn adborth gan y cyhoedd bod treth dwristiaeth bosib wedi'i nodi fel cynnig i'w ystyried; a

d) nad oes penderfyniad wedi'i wneud i gyflwyno treth newydd yng Nghymru.

'Deddf Cymru 2014' (Saesneg yn unig)

*[Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliant 2 ei ddad-ddethol]*

**Gwelliant 2.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Dileu pob dim a rhoi yn ei le:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn credu y dylid gweithredu treth ar blastigau tafladwy yng Nghymru.

## 8 Dadl Plaid Cymru

(60 munud)

**NDM6549** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn mynegi pryder ynghylch cyflwyno credyd cynhwysol.

2. Yn credu y dylid datganoli rheolaeth weinyddol dros les fel y gall Llywodraeth Cymru newid amlder y taliadau, dod â'r diwylliant o sancsiynau i ben, a sicrhau bod taliadau yn mynd i unigolion nid cartrefi.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Dileu pob dim a rhoi yn ei le:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod y pryder sy'n bodoli ynghylch cyflwyno credyd cynhwysol.

2. Yn croesawu'r egwyddorion y tu ôl i'r credyd cynhwysol, sef rhoi help llaw i bobl gael gwaith, ac yn nodi pan y rhagwelwyd credyd cynhwysol gan y Ganolfan Cyfiawnder Cymdeithasol, canfuodd fod y rhan fwyaf o bobl sy'n hawlio budd-daliadau yn awyddus i weithio ond yn cael eu dal yn ôl gan system nad yw'n ysgogi cyflogaeth.

*[Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliant 2 ei ddad-ddethol]*

**Gwelliant 2.** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Dileu pwynt 2 ac ychwanegu pwyntiau newydd:

Yn nodi'r effaith ddinistriol ar deuluoedd sy'n agored i niwed o ran pryder, dyled, digartrefedd a salwch meddwl yn sgil cyflwyno'r credyd cynhwysol sy'n rhoi pwysau sylweddol ar wasanaethau cyhoeddus datganoledig.

Yn credu ei bod yn un o egwyddorion sylfaenol pwysig y wladwriaeth les y dylid rhannu risgiau yn deg ar draws cymdeithas ac y dylid rheoli costau a thaliadau lles a'r broses weinyddu lles ar lefel y DU, felly.

Yn galw ar Lywodraeth y DU i wrthdroi ei thoriadau niweidiol i les, oedi cyn cyflwyno'r credyd cynhwysol a mynd i'r afael â'r pryderon sylfaenol sy'n cael eu codi.

## 9 Cyfnod Pleidleisio

## 10 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM6548** Russell George (Sir Drefaldwyn)

Darparu gofal sylfaenol yn Llanidloes: dull arloesol o leddfu'r pwysau ar feddygon teulu

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 7 Tachwedd 2017

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 18 Hydref 2017 i'w hateb ar 25 Hydref 2017

**R – Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W – Yn dynodi bod y cwestiwn wedi cael ei gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw Llefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol

**1.** David Rees (Aberafan): Sut y bydd Ysgrifennydd y Cabinet yn asesu'r cynnydd sy'n cael ei wneud mewn perthynas â darparu bargen ddinesig Bae Abertawe? (OAQ51240)

**2.** Dawn Bowden (Merthyr Tudful a Rhymni): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am sut y mae gwahanol elfennau o'r gyllideb ddrafft yn helpu'r grwpiau o bobl fwyaf agored i niwed ym Merthyr Tudful a Rhymni? (OAQ51237)

**3.** Adam Price (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr): A wnaiff Llywodraeth Cymru gael gwared ar y cap ar gyflogau'r sector cyhoeddus? (OAQ51243)

**4.** Mark Isherwood (Gogledd Cymru): Pa ddarpariaeth ariannol y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i gwneud ar gyfer awdurdodau lleol er mwyn iddynt gyflawni eu dyletswyddau atal? (OAQ51227)

**5.** Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am yr egwyddorion sy'n llywio ystyriaeth Llywodraeth Cymru o drethi newydd? (OAQ51244)

**6.** Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro): Pa astudiaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cynnal ynghylch effaith bosibl unrhyw drethi y mae'n ystyried eu cyflwyno yn ystod y pumed Cynulliad? (OAQ51236)

**7.** Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am effaith cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyllid ar gyfer portffolio'r amgylchedd a materion gwledig? (OAQ51225)

**8.** Nick Ramsay (Mynwy): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet amlinellu sut y caiff dyraniadau gwario eu blaenoriaethu yn y gyllideb ddrafft? (OAQ51231)

**9.** Rhianon Passmore (Islwyn): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am ddyraniadau'r gyllideb i bortffolio'r economi a'r seilwaith mewn perthynas â rhwydwaith rheilffyrdd Cymru? OAQ51239

**10.** Mark Reckless (Dwyrain De Cymru): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am yr effaith y caiff newidiadau i'r dreth drafodiadau eiddo ar y cyflenwad o eiddo masnachol? (OAQ51241)

**11.** Huw Irranca-Davies (Ogwr): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am gynllun gostyngiadau'r dreth gyngor yng Nghymru? (OAQ51232)

**12.** Hefin David (Caerffili): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am ddefnyddio dangosyddion cenedlaethol wrth gyflawni gwelliannau perfformiad ar gyfer llywodraeth leol? (OAQ51235)

**13.** Leanne Wood (Rhondda): Beth y mae Ysgrifennydd y Cabinet yn ei wneud i sicrhau y manteisir i'r eithaf ar gymorth ariannol o'r Undeb Ewropeaidd? (OAQ51230)

**14.** Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am effaith cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfraddau'r dreth gyngor yng Nghymru? (OAQ51224)

**15.** Steffan Lewis (Dwyrain De Cymru): Pa drafodaethau y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'u cael gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili am wella sut y cyflenwir gwasanaethau yn yr ardal? (OAQ51242)

## Gofyn i Gomisiwn y Cynulliad

**1.** Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru): A wnaiff y Comisiwn amlinellu'r rheolau sy'n ymwneud â gwerthwyr preifat, fel y Big Issue, ar neu y tu allan i ystâd y Cynulliad? (OAQ51228)

**2.** Leanne Wood (Rhondda): Pa ymdrechion y mae'r Comisiwn yn eu gwneud i hyrwyddo addysg wleidyddol? (OAQ51233)

3. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru): A wnaiff y Comisiynydd ddatganiad am sut y dyrennir costau diogelwch yn y Cynulliad? (OAQ51247)